# Gwybodaeth am ryddhau

# cleifion ar ôl Llawdriniaeth ar y Trwyn/Sinysau

**Ôl-ofal:**

- Efallai bod gennych ddeunydd yn eich trwyn i atal gwaedu. Bydd yn toddi o fewn 5-7 diwrnod.
- Efallai y bydd gofyn i chi roi rhywfaint o eli trwynol fel y rhagnodir i atal haint. Defnyddiwch gefn eich migwrn i wneud hyn.
- Efallai y bydd rhywfaint o staen gwaed pinc yn diferu i lawr eich trwyn neu'ch llwnc. Peidiwch â phoeni, mae ychydig bach yn normal.
- Sicrhewch fod eich pen wedi'i godi wrth gysgu neu orffwys.
- Efallai y bydd angen hyd at bythefnos i ffwrdd o'r gwaith, yn enwedig os yw eich swydd yn cynnwys codi pwysau trwm/straen.

**Pethau i'w hosgoi:**

- Diodydd neu brydau poeth am 24-48 awr – gallwch gael eitemau cynnes ac oer.
- Cawodydd neu faddonau am 24-48 awr – PEIDIWCH â chyfeirio dŵr poeth yn syth at eich wyneb.
- Chwythu'ch trwyn am bythefnos.
- Teithio mewn awyren am bythefnos.
- Nofio am o leiaf 3 wythnos ers i'ch trwyn waedu ddiwethaf.
- Ymarfer corff a chodi pwysau trwm am bythefnos.
- Chwaraeon cyswllt am fis.
- Tynnu dillad tynn dros eich pen am bythefnos.

**Os yw eich trwyn yn dechrau gwaedu:**

Dylech blygu ymlaen, dal y rhan feddal o'ch trwyn yn dynn, rhoi iâ ar gefn eich gwddf a rhan galed eich trwyn (pont).

**Os yw'r gwaedu'n para mwy na 15 munud, ewch i'ch Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys agosaf.**

**Dyfrhau trwynol:**

- Dywedir wrthych faint o ddiwrnodau ar ôl eich llawdriniaeth y dylech ddechrau gwneud hyn.
- **Rysáit:** ychwanegu ½ llwy de o halen bwrdd a ½ llwy de o ficarbonad soda (soda pobi) at fwg o ddŵr berwedig wedi'i oeri NEU gymysgedd wedi'i baratoi ymlaen llaw y gellir ei brynu o fferyllfa.
- **Dull:**
  - Prynu potel rinsio sinws (e.e. Neilmed neu debyg).
    - Mae'r rhain ar gael mewn fferyllfeydd neu ar-lein.
  - Gwneud y gymysgedd yn ffres ar gyfer pob defnydd os ydych yn ei wneud eich hun.
  - Gwyliwch y fideo canlynol am y dechneg gywir ar gyfer rinsio trwynol: NeilMed Sinus Rinse
  - Gwneud hyn ddwywaith y dydd am bythefnos.
  - Efallai y gofynnir i chi ychwanegu toddiant steroid ato.
    - Budesonide – fel y cyfarwyddir gan eich llawfeddyg.
    - Flixonase – un *nasule* ar bob ochr.

**Chwistrellau trwynol (halwynog/steroid):**

**Techneg:**

- Chwythu/golchi eich trwyn.
- Plygu eich pen ymlaen a gosod y chwistrell yn eich ffroen.
- Anelu'r chwistrell I FFWRDD o ganol y trwyn tuag at wal allanol y ffroen.
- Os ydych chi'n ei ddefnyddio yn y ddwy ffroen, ailadroddwch ar yr ochr arall.

Am ragor o wybodaeth gam wrth gam:

**Fideo:** https://www.youtube.com/watch?v=_ytYj1TLojM

**Diagramau:** https://www.entuk.org/patients/conditions/79/how_to_use_nasal_sprays

**Ar ôl chwistrellu:**

- Osgoi sniffian.
- Efallai y byddwch chi'n gweld bod diod â blas yn ddefnyddiol ar gyfer cael gwared ar unrhyw flas annymunol.

Noder: gall gymryd ychydig ddyddiau i deimlo budd eich chwistrell steroid.

**Diferion trwynol steroid:**

**Techneg:**

- Chwythu/golchi eich trwyn.
- Gorwedd yn wastad ar arwyneb a phlygu eich pen yn ôl.
- Rhoi'r diferion yn eich trwyn a symud eich pen o ochr i ochr.
- Aros yn y safle hwn am ychydig funudau i ganiatáu i'r diferion gael eu cyfeirio i'r lle cywir.

Am ragor o wybodaeth gam wrth gam:

https://www.entuk.org/patients/conditions/77/how_to_use_nasal_drops

Noder: dylech ddefnyddio diferion trwynol steroid am gyfnod cyfyngedig yn unig fel y'u rhagnodir gan fod y diferion hyn yn fwy crynodedig na'r chwistrellau trwynol steroid.

**Os oes gennych waedlif trwyn sy'n para mwy na 15 munud, ewch i'ch Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys agosaf.**

**Rhifau cyswllt**

**Os oes gennych unrhyw bryderon gallwch gysylltu â:**

Ystafell 9 Cleifion Allanol ENT (Llun-Gwener 9am-5pm) – **02921 843174**
Hwb Llawfeddygol (Llun-Gwener 7am-7pm) – **02921 826510** neu**02921 826348**